sportwales chwaraeoncymru

# AROLWG CHWARAEON YSGOL
# YMGYNGHORIAD RHANDDEILIAID 2020
# CANLYNIADAU

MAWRTH 2021

AROLWG CHWARAEON YSGOL - YMGYNGHORIAD RHANDDEILIAID 2020 - CANLYNIADAU





chwaraeon.cymru

/SportWales
@sport_wales
sport_wales

CHWARAEON CYMRU

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 02 |
| Beth wnaethom ni | 03 |
| **Gwaith Maes** | **05** |
| Gwasanaeth Cwsmeriaid | 06 |
| Amseriad | 07 |
| Diffyg cefnogaeth gan ysgolion | 09 |
| Arolygon amrywiol a niferus yn cystadlu am amser ysgolion | 10 |
| Dolenni'r arolwg | 11 |
| Nid oedd rhai ysgolion yn ymwybodol o'r arolwg | 11 |
| **Holiadur Cyfranogiad** | **13** |
| Dilysrwydd | 14 |
| Hygyrchedd | 15 |
| Cynnwys | 16 |
| **Holiadur Darpariaeth** | **23** |
| Cynnwys | 25 |
| **Adrodd yn Ôl ac allbynnau** | **32** |
| Effaith bosib y canlyniadau [arolwg] | 34 |
| Ymwybyddiaeth ac amseriad cyhoeddi'r canlyniadau | 36 |
| Math a Steil yr Wybodaeth a'r Adroddiadau | 39 |
| Yr adnoddau a'r gefnogaeth ychwanegol sy'n ofynnol | 42 |
| Tablau Data | 34 |

# CYFLWYNIAD

**MAE CHWARAEON CYMRU WEDI GWELD BOD PROSES YMGYNGHORI'R AROLWG CHWARAEON YSGOL WEDI BOD YN HYNOD FUDDIOL. GWERTHFAWROGIR YR ADBORTH, Y SYLWADAU ADEILADOL A'R ATEBION A GYNIGIWYD GAN BARTNERIAID DRWY'R HOLIADUR AR-LEIN A'R TRAFODAETHAU BYRDDAU CRWN A BYDDANT YN CYFRANNU LLAWER FEL SAIL I'R AROLWG NESAF, AC YN EI WELLA.**

Gyda'i gilydd, roedd yr adborth yn helaeth, ac er bod gwelliannau clir yn hawdd eu hadnabod a'u gweithredu yn aml, roedd safbwyntiau croes hefyd. Er mwyn rhoi sylw i'r gwrthdaro hwnnw, rydym wedi cadw at yr egwyddorion cyffredinol canlynol sy'n rhoi eglurder i faterion penodol, ond sydd, yn bwysicach, yn seiliedig ar y cyfoeth o adborth a ddarparwyd yn ffurfiol ac yn anffurfiol yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Dyma'r egwyddorion cyffredinol:

1. Arolwg byrrach, symlach a haws ei gwblhau, gan ganolbwyntio ar gwestiynau sydd fwyaf defnyddiol a pherthnasol i Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid.
2. Cyn lleied o darfu â phosib ar eiriad cwestiynau ac opsiynau ymateb pan fo hynny'n bosib, gan gynnal integriti data tueddiadau.
3. Cynhyrchu a dosbarthu adroddiadau, allbynnau ac adnoddau ychwanegol cyn gynted â phosib, gan ganiatáu ar gyfer defnyddio'r wybodaeth ar amser priodol.
4. Rhaid i'r newidiadau sydd i'w gweithredu gydymffurfio â chanllawiau ystadegau swyddogol y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru.

Mewn termau syml iawn, mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o'n hymrwymiadau yn rhoi sylw i un o'r tri phwynt canlynol:

1. Hygyrchedd (amseriad, hyd ac iaith briodol – fel ei fod yn hawdd i bawb ei gwblhau)
2. Dilysrwydd (methodoleg / canlyniadau arolwg mae partneriaid yn ymddiried ynddynt)
3. Cefnogaeth gan ysgolion (fel bod ysgolion yn gwerthfawrogi'r arolwg ac yn defnyddio eu data / gwybodaeth i greu newid ystyrlon)

# BETH WNAETHOM NI

Rhwng mis Awst a mis Hydref 2020, cynhaliwyd ymgynghoriad gyda phartneriaid ynghylch cylch nesaf yr Arolwg Chwaraeon Ysgol. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys y canlynol:

- **Arolwg ar-lein** yn gofyn am adborth ar newidiadau penodol a oedd yn cael eu cynnig ar gyfer y dyfodol. Roedd yr arolwg yn fyw rhwng 3 Awst ac 14 Medi a chafwyd 26 o ymatebion gan amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys cyrff rheoli cenedlaethol (CRhC), awdurdodau lleol (ALlau), sefydliadau cenedlaethol a Llywodraeth Cymru.
- Tair **'Trafodaeth Bwrdd Crwn Ar-lein'** i gael adborth ac awgrymiadau ehangach mewn perthynas â'r arolwg. Mynychodd mwy na hanner cant o bartneriaid y tri sesiwn yma.
- Casglwyd adborth ychwanegol **drwy e-bost** hefyd.

Roedd yr ymgynghoriad yn cwmpasu pedair agwedd allweddol ar yr arolwg, a fydd yn cael sylw yn y ddogfen hon:

### #1 GWAITH MAES

Yn ystod y cyfnod o 15 wythnos, mae'r arolwg ar agor a chesglir data gan fwy na 1,000 o ysgolion ledled Cymru.

### #2 HOLIADUR CYFRANOGIAD

Yr arolwg sy'n cael ei lenwi gan fyfyrwyr sy'n cofnodi pa chwaraeon maent wedi cymryd rhan ynddynt a pha mor aml.

### #3 HOLIADUR DARPARIAETH

Rydym yn gofyn i un athro ym mhob ysgol gwblhau ail arolwg i gofnodi pa chwaraeon a chyfleusterau sydd ar gael mewn ysgolion, sawl munud o chwaraeon mae plentyn yn cael mynediad iddynt mewn wythnos, ac i gael amrywiaeth o safbwyntiau am ddarpariaeth addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol.

### #4 ALLBYNNAU AC ADRODD YN ÔL

Unwaith y bydd yr arolwg wedi'i gwblhau, caiff y data eu pwysoli a'u gosod mewn setiau data ac adnoddau cyfathrebu defnyddiol i helpu ysgolion i gynllunio a datblygu eu darpariaeth chwaraeon.







# GWAITH MAES





# GWASANAETH CWSMERIAID

Yn y rhan fwyaf o achosion roedd y partneriaid yn gadarnhaol iawn am y gefnogaeth a gynigiwyd gan Chwaraeon Cymru (a chontractwyr yr arolwg) yn ystod cam gwaith maes yr arolwg. Canmolwyd y llinell gymorth dros y ffôn, y diweddariadau wythnosol a'r system fonitro fyw, a gofynnodd y partneriaid am fwy o hyn yn y dyfodol.

**Tynnwyd sylw at rai meysydd ar gyfer eu hystyried:**

- Er bod y System Fonitro Fyw yn ddefnyddiol iawn, gofynnodd un partner am fewngofnodi ychwanegol (un ar gyfer pob ysgol) i alluogi ysgolion i wirio eu cynnydd eu hunain heb fod angen dibynnu ar arweinydd yr ALl.
- Esboniodd un partner ALl eu bod wedi derbyn dolenni'r arolwg yn rhy hwyr (ychydig wythnosau ar ôl i'r ysgolion eu derbyn). Roedd hyn yn golygu nad oeddent yn gallu cynllunio ymlaen llaw a sicrhau bod yr holiadur darpariaeth yn mynd at y person mwyaf priodol. Roedd hefyd yn golygu nad oeddent yn gallu helpu ysgolion a oedd wedi colli eu dolen (neu heb ei derbyn).
- Yn yr un modd, dywedodd un partner ALl wrthym ei fod eisiau dechrau arni ar unwaith ac roedd hynny'n golygu ymgyfarwyddo â'r arolwg ymlaen llaw a sicrhau bod gofynion TG angenrheidiol yn eu lle.
- ✓ Mynegodd partner ALl ei fod yn teimlo dan bwysau gan Chwaraeon Cymru i gyrraedd targedau.

**Yn seiliedig ar yr adborth hwn, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Darparu llinell gymorth dros y ffôn a system fonitro fyw eto ar gyfer cylch nesaf yr arolwg.
- ✓ Edrych a yw mewngofnodi cydamserol ychwanegol i'r system fonitro fyw yn ymarferol yn dechnegol a cheisio datblygu hyn ymhellach fel ei fod hefyd yn cynnwys faint yn rhagor o ymatebion sydd eu hangen ar yr ysgol / ALl i fod yn gymwys ar gyfer adroddiad (nid dim ond nifer yr ymatebion).
- ✓ Darparu dolenni arolwg i ALlau cyn i'r arolwg fynd yn fyw / cael ei anfon i ysgolion.
- ✓ Cyfathrebu manylion yr arolwg yn glir (gan gynnwys pryd fydd y dolenni byw ar gael) gydag Awdurdodau Lleol ac ysgolion ymhell cyn i'r arolwg fynd yn fyw. Bydd hyn yn galluogi ysgolion ac ALlau i gynllunio ymlaen llaw yn ôl yr angen.
- ✓ Darparu dolenni ffug bythefnos cyn i'r arolwg fynd yn fyw. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r ysgolion (a'r staff cymorth) sy'n dymuno ymgyfarwyddo â'r arolwg wneud hynny.
- ✓ Sicrhau bod ein dull o weithredu gyda phartneriaid (drwy reolwyr perthnasoedd) yn gyson ac yn gefnogol, gan ddarparu cyfathrebu drwy gydol y broses. Gall hyn gynnwys rhannu enghreifftiau o arfer da ac esbonio manteision / pwysigrwydd yr arolwg (ar gyfer dysgu, model buddsoddi ac ati).

# AMSERIAD

Tynnodd nifer o bartneriaid sylw at yr heriau posib o ran gweinyddu'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn 2021 oherwydd COVID-19 a'r anawsterau mae'r pandemig hwn yn eu cyflwyno. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Doedd dim modd ateb llawer o'r cwestiynau presennol / ni fyddent yn berthnasol ar hyn o bryd.
- Efallai na fydd Swyddogion Datblygu Chwaraeon yn gallu mynd i ysgolion a byddai angen cefnogaeth ychwanegol i'w weinyddu ar hyn o bryd.
- Bydd chwaraeon yn edrych yn wahanol iawn yn 2021 oherwydd rheoliadau COVID-19 (gall hyn achosi heriau i'r model buddsoddi).

Heb ystyried COVID-19 fodd bynnag, mynegodd rhai partneriaid anhawster i gael disgyblion oedran uwchradd i gwblhau'r arolwg yn ystod tymor yr haf wrth i bwysau arholiadau wneud hwn yr amser prysuraf o'r flwyddyn i'r disgyblion hyn. Cyflwynwyd mis Ionawr neu fis Medi fel amseroedd a fyddai'n fwy cyfleus o safbwynt yr ysgolion. Yn ogystal, mynegodd un awdurdod lleol anhawster i gael athrawon i gwblhau'r arolwg darpariaeth ac awgrymodd y dylai'r holiadur hwn fod ar agor cyn i'r arolwg cyfranogiad fynd yn fyw.

O safbwynt cyrff rheoli cenedlaethol, mynegodd un partner bod tair blynedd (cylch presennol yr arolwg) yn amser hir i aros er mwyn darganfod a oedd y galw am eu camp wedi lleihau. Nodwyd hefyd y gallai cynnal yr arolwg yn ystod yr haf gael effaith dymhorol a allai, o bosib, ystumio'r data o blaid chwaraeon yr haf.



CHWARAEON CYMRU

**Yn seiliedig ar yr adborth hwn, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Gohirio Arolwg Chwaraeon Ysgol 2021, ac adolygu yn unol â'r sefyllfa barhaus.
- ✓ Ceisio ymestyn cyfnod y gwaith maes drwy agor yr arolwg 2 i 3 wythnos yn gynharach os yw hynny'n bosib, gan roi mwy o amser i ddisgyblion ac athrawon ysgolion uwchradd gwblhau'r arolwg.
  Sylwer: Byddai symud y gwaith maes i fis Ionawr neu fis Medi yn golygu na ellid cymharu data'r arolwg â'r blynyddoedd blaenorol mwyach. Hefyd byddai angen newid y cwestiynau gan eu bod ar hyn o bryd yn gofyn i ddisgyblion adrodd ar y flwyddyn academaidd gyfan. At hynny, caiff data CYBLD eu rhyddhau ym mis Awst, sy'n golygu na fyddai unrhyw ddata allbwn sy'n gofyn am bwysoli (e.e. ALI, Cenedlaethol) ar gael o hyd tan ar ôl yr amser hwn.
  Rydym yn ymwybodol o beidio â dymuno cymhlethu proses yr arolwg ymhellach (cynyddu nifer y camau a'r ohebiaeth ag ysgolion) ac felly rydym yn teimlo nad yw agor yr arolwg darpariaeth cyn yr arolwg cyfranogiad yn ddoeth. Gall gwahanu'r holiaduron hyn ymhellach achosi dryswch. Er enghraifft, efallai y bydd rhai ysgolion yn teimlo eu bod eisoes wedi cwblhau'r Arolwg Chwaraeon Ysgol pan fydd ganddynt holiadur arall i'w gwblhau o hyd.)
- ✓ Edrych ar y posibilrwydd o weinyddu arolwg barometr byrrach bob 6 neu 12 mis. Byddai hyn yn cynnwys sampl lai o ysgolion / disgyblion ac yn gofyn cwestiynau craidd yn unig (cyfranogiad a galw). Mae'n debyg y byddai'n rhaid i arolwg o'r math hwn ddefnyddio dull samplu gwahanol (e.e. gan ddefnyddio samplu ar hap o bosib, yn seiliedig ar Rifau Unigryw Disgyblion (UPN)).



# DIFFYG CEFNOGAETH GAN YSGOLION

Dywedodd nifer o awdurdodau lleol partner wrthym nad yw ysgolion yn gweld gwerth yn yr arolwg a bod cwblhau'r arolwg yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar waith Timau Datblygu Chwaraeon ALlau. Yn yr adborth gan bartneriaid tynnwyd sylw at nifer o ffyrdd y gallem gynyddu cefnogaeth yr ysgolion.

**Yn seiliedig ar yr adborth hwn, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Ceisio cymeradwyaeth bellach gan y byd addysg (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Addysg ac Estyn – a ddylai fod yn edrych ar sut mae ysgolion wedi defnyddio eu data, nid dim ond a oes ganddynt adroddiad ai peidio).
- ✓ Sicrhau bod yr arolwg yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd lle bo hynny'n ymarferol.
- ✓ Darparu data / adroddiadau ysgol pan ddaw'r gwaith maes i ben er mwyn galluogi digon o amser cynllunio ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf.
- ✓ Darparu'r 'Templed Cynllun Gweithredu' ar ddechrau'r broses gwaith maes ac ochr yn ochr â'r canlyniadau, i helpu gyda rhoi'r canlyniadau ar waith.
- ✓ Symleiddio'r arolwg a chynnig fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen'.
- ✓ Annog awdurdodau lleol i ddarparu cymhelliant i ysgolion fel 'Sesiynau dosbarth meistr athletau' a 'Dyfarniad Play Maker'. Bydd Chwaraeon Cymru yn rhannu enghreifftiau o arfer da yn y cyswllt hwn.
- ✓ Edrych ar sut gellir gweinyddu'r arolwg drwy ddulliau cyflymach, ar-lein gan ddefnyddio Hwb / Teams ac ati.
- ✓ Adolygu ein cyfathrebu ag ysgolion / Penaethiaid, gan sicrhau ein bod yn pwysleisio pwysigrwydd yr arolwg ac, os yw hynny'n bosib, defnyddio fforymau / grwpiau Penaethiaid i ddosbarthu gwybodaeth sy'n berthnasol i ysgolion.
- ✓ Adolygu ein cyfathrebu cenedlaethol am yr arolwg a sicrhau bod gwerth a phwysigrwydd yr arolwg yn cael eu cyfleu. Gwneir hyn yn uniongyrchol drwy sianeli Chwaraeon Cymru ond hefyd o bosib drwy gyfathrebu gan drydydd parti fel Llywodraeth Cymru, NEU ac ati.
- ✓ Annog ALlau i weithio gyda'u timau addysg a'u cynnwys wrth hyrwyddo'r arolwg ymhlith ysgolion.
- ✓ Dilyniant gydag ysgolion sydd heb gwblhau'r arolwg er mwyn deall pam.



CHWARAEON CYMRU

# AROLYGON AMRYWIOL A NIFERUS YN CYSTADLU AM AMSER YSGOLION

Dywedodd nifer o bartneriaid wrthym bod arolygon tebyg eraill yn cael eu hyrwyddo ymhlith ysgolion ac nad yw ysgolion yn gwybod pa rai i'w cwblhau o ystyried eu hamser a'u hadnoddau cyfyngedig. Cyfeiriwyd at arolwg Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion sawl gwaith, yn enwedig gan fod yr arolwg hwn yn cyd-fynd â llesiant.

**Yn seiliedig ar yr adborth hwn, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Sicrhau bod yr Arolwg Chwaraeon Ysgol yn wahanol iawn i arolygon eraill, a bod y gwahaniaeth hwn yn cael ei gyfleu'n glir. h.y. beth sy'n unigryw am yr Arolwg Chwaraeon Ysgol, o'i gymharu â'r Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion ac ati.
- ✓ Ceisio mapio'r tirlun arolygon ysgolion yng Nghymru (beth sy'n cael ei ofyn gan bwy, pryd a sut).
- ✓ Cydlynu mewnbynnau ac allbynnau'r arolwg os yw hynny'n bosib.

# DOLENNI'R AROLWG

Mynegodd rhai partneriaid bod dolen yr arolwg yn rhy hir a'i bod yn anodd ei mewnbynnu'n gywir. Felly bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:

- ✓ Edrych a oes posib byrhau'r dolenni ac a yw'n bosib darparu cod QR ar gyfer yr arolwg fel dull arall sy'n llai tebygol o arwain at gamgymeriadau wrth fewnbynnu.

# NID OEDD RHAI YSGOLION YN YMWYBODOL O'R AROLWG

- ✓ Mae Chwaraeon Cymru yn gwahodd pob ysgol yng Nghymru i gymryd rhan yn yr arolwg gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir gan awdurdodau lleol. Felly, mae'n bwysig iawn bod yr wybodaeth hon yn fanwl gywir ac yn gyfoes. Bydd Chwaraeon Cymru yn cynnwys amser ychwanegol ar gyfer cylch nesaf yr arolwg, er mwyn sicrhau bod gennym gronfa ddata fanwl gywir o ysgolion sy'n cynnwys cyfeiriadau e-bost cysylltiadau priodol (ni fyddwn yn gallu gwarantu dolenni arolwg ar gyfer unrhyw ysgolion sy'n cael eu dwyn i'n sylw unwaith y bydd yr arolwg yn fyw). Fel yng nghylch blaenorol yr arolwg, bydd Chwaraeon Cymru yn cynnig y dewis i ALlau o ddilyniant dros y ffôn gyda phob ysgol nad ydynt wedi dechrau hanner ffordd drwy'r gwaith maes.
- ✓ Bydd Chwaraeon Cymru yn defnyddio'r fforymau / grwpiau Penaethiaid ar gyfer dosbarthu gwybodaeth.







# HOLIADUR CYFRANOGIAD





CHWARAEON CYMRU

## DILYSRWYDD

Mynegodd y partneriaid nifer o bryderon yn ymwneud â dilysrwydd data'r Arolwg Chwaraeon Ysgol. Amlinellir y rhain isod:

**A. Dywedodd y partneriaid a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad wrthym nad oedd llawer o blant yn ymroi yn llawn, nad oeddent yn cymryd yr arolwg o ddifrif neu eu bod yn ddiamynedd wrth ei gwblhau. Dywedodd nifer o bartneriaid wrthym mai'r rheswm am hyn oedd eu bod yn gweld yr arolwg yn rhy hir, yn ailadroddus, yn ddryslyd neu'n rhwystredig. O ganlyniad, mae rhai plant yn clicio dim ond er mwyn mynd drwy'r arolwg.**

**Yn seiliedig ar yr adborth hwn, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Ceisio symleiddio'r cwestiwn cyfranogiad fel mai dim ond y chwaraeon maent wedi cymryd rhan ynddynt sydd raid i ddisgyblion eu ticio (nid 'ie / na' ar gyfer pob camp). Byddwn hefyd yn ceisio gwella fformat y cwestiwn fel nad yw'n cael ei gyflwyno fel rhestr hir o chwaraeon (er enghraifft, drwy grwpio chwaraeon yn ôl math ar dudalennau ar wahân neu eu cyflwyno mewn grid). Bydd y defnydd o ddyluniad / delweddau'n cael ei ystyried hefyd.
- ✓ Datblygu deunyddiau cyfathrebu y gall athrawon eu rhannu gyda disgyblion yn esbonio pam mae'r arolwg yn bwysig (er enghraifft, fideo sy'n cyflwyno'r arolwg gan athletwr, neu ddogfen gyfarwyddyd i athrawon).

**B. Dywedodd y partneriaid wrthym bod diffyg cysondeb yn y modd yr oedd athrawon yn dehongli cwestiynau a bod rhai disgyblion yn brysio drwy'r arolwg dim ond er mwyn dweud eu bod wedi ei gwblhau.**

**Er mwyn helpu gyda sicrhau cysondeb yn y dyfodol, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Rhoi arweiniad i athrawon sy'n esbonio pob cwestiwn a pham rydym yn ei ofyn. Bydd hefyd yn esbonio pam mae'r arolwg yn bwysig ac yn rhoi cyngor ar arfer gorau ar gyfer cwblhau.

**C. Dywedodd y partneriaid bod rhai ysgolion sydd eisiau 'bod ar frig y tabl' wedi bod yn dewis eu 'disgyblion da mewn chwaraeon' i gwblhau'r arolwg. Mae gan Chwaraeon Cymru rai mesurau yn eu lle eisoes i leihau'r tebygolrwydd o sampl rhagfarn, gan gynnwys gofynion sampl gofynnol ar gyfer pob ysgol.**

**Bydd Chwaraeon Cymru yn edrych ar fesurau pellach i leihau'r tebygolrwydd o ragfarn, gan gynnwys y canlynol:**

- ✓ Gwaith dilysu a allai gynnwys dilyniant gyda dewis ysgolion ar hap i dreialu dull samplu ar hap newydd sy'n defnyddio UPN (Rhif Unigryw Disgyblion).

**D. Dywedodd y partneriaid wrthym bod rhai plant yn dewis chwaraeon maent ond wedi cymryd rhan ynddynt unwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol (e.e. syrffio ar wyliau).**

**Fel ymateb i hyn, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Ailgyflwyno'r cwestiwn 'amledd chwaraeon' a fydd yn helpu i gadarnhau a gymerwyd rhan yn y gamp hon yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf ac, os felly, pa mor aml y gwnaed hynny.

# HYGYRCHEDD

Tynnodd y partneriaid sylw at nifer o bryderon ynghylch hygyrchedd yr arolwg gyda therminoleg yn profi'n anodd i rai disgyblion (e.e. 'hyderus', 'cyfforddus', 'parkour'). Roedd hyn yn arbennig o wir am y rhai yng Nghyfnod Allweddol 2 is, y rhai ag anghenion dysgu cymhleth, y rhai ag oedran darllen is neu'r rhai a gwblhaodd fersiynau Cymraeg yr holiadur. Yn ogystal, roedd rhai cwestiynau'n heriol. Er enghraifft, cwestiynau adnabod ethnigrwydd a lleoliadau (gyda rhai disgyblion yn drysu rhwng 'clybiau ar ôl ysgol' a 'chlybiau cymunedol'). Nid oedd y ffaith bod pob grŵp oedran wedi cael yr un cwestiynau yn 2018, heb unrhyw fersiwn Hawdd ei Ddarllen (neu benodol i'r cynradd) o'r holiadur wedi cael ei gynnig, yn helpu gyda'r heriau hyn.

**Er mwyn rhoi sylw i'r pryderon hyn, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Datblygu arolwg Hawdd ei Ddarllen (y gellir ei gymharu'n ystadegol os yw hynny'n bosib).
- ✓ Adolygu'r cwestiwn ethnigrwydd a'i symud i flaen yr holiadur fel bod dosbarthiadau'n gallu rhoi sylw i'r cwestiwn hwn ar yr un pryd.
- ✓ Darparu cyfarwyddyd ychwanegol i athrawon a disgyblion (er enghraifft, dogfen gyfarwyddyd i athrawon a / neu awgrymiadau sain ar gyfer cwestiynau).
- ✓ Adolygu a symleiddio'r cwestiwn sy'n ymwneud â lleoliadau cymryd rhan; gan gynnwys edrych a yw'n ymarferol grwpio cwestiynau i adrannau allgyrsiol a chymunedol heb ymestyn yr arolwg, lleihau manwl gywirdeb yr ymatebion, neu gael effaith niweidiol ar ddata tueddiadau. Bydd gwahaniaethu rhwng lleoliadau gan ddefnyddio awgrymiadau dylunio / gweledol yn cael ei ystyried hefyd fel ffordd o wneud y cwestiwn hwn yn gliriach.
- ✓ Profi'r holiadur / holiaduron gyda disgyblion i wirio eu dealltwriaeth a chaniatáu digon o amser i wneud diwygiadau angenrheidiol.
- ✓ Rhoi arweiniad i ysgolion / ALlau ar ffyrdd y gallant gynorthwyo disgyblion i gwblhau'r arolwg, gan gynnwys enghreifftiau o arfer da. Er enghraifft, defnyddio Llysgenhadon Ifanc, rhwydwaith DWSDO, sefydliadau AU.
- ✓ Ystyried a oes unrhyw ffyrdd eraill o symleiddio'r arolwg.





# CYNNWYS

Nododd y partneriaid nifer o bynciau nad oeddent yn rhan o gylch olaf yr arolwg, a fyddai, yn eu barn hwy, yn ddefnyddiol i'w cynnwys yn y dyfodol. Fodd bynnag, cydnabuwyd yr angen am gadw'r arolwg yn hyd rhesymol yn y rhan fwyaf o achosion.

## A. Cymhelliant i Gymryd Rhan

Ar hyn o bryd mae'r arolwg yn gofyn i ddisgyblion pa chwaraeon yr hoffent wneud mwy ohonynt a beth fyddai'n eu hannog i wneud mwy. Er ein bod yn cydnabod gwerth edrych ar gymhelliant ymhellach, nid oes lle yn yr arolwg presennol i edrych ar hyn yn fanylach.

**Safbwynt Chwaraeon Cymru:**

- × Byddem yn annog y rhai sydd â diddordeb mewn ymchwilio'n ddyfnach i gynnal eu hymchwil eu hunain y gallai Chwaraeon Cymru roi cyngor yn ei gylch efallai. Hefyd bydd Chwaraeon Cymru eisiau cynnal rhywfaint o ymchwil ansoddol gydag ysgolion / disgyblion yn y dyfodol rhagweladwy ac efallai y gallwn gynnwys y pwnc hwn fel rhan o hyn.

## B. Effaith COVID-19

Mae COVID-19 yn debygol o fod wedi effeithio ar gyfranogiad mewn sawl ffordd, er enghraifft, pryderon am ddiogelwch, cau cyfleusterau, cadw pellter cymdeithasol ac ati. Mae llawer o'r ffactorau hyn yn debygol o gael eu canfod yn y cwestiynau presennol am hyder, darpariaeth, mwynhad ac ati.

**Bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ asesu a oes unrhyw fylchau yn y cwestiynau presennol ac, o bosib, cynnwys opsiynau ychwanegol yn y cwestiwn 'Byddwn yn gwneud mwy o chwaraeon pe bai...'.
- ✓ edrych ar y posibilrwydd o gynnwys cwestiwn cysylltiedig â COVID-19 ar wahân ar gyfer disgyblion oedran uwchradd.

## C. Cymryd Rhan yn 'Rhywle Arall'

Roedd rhai partneriaid yn teimlo nad oedd yr opsiwn 'rhywle arall' yn darparu digon o fanylder. Er enghraifft, nid yw'n gwahaniaethu rhwng beicio i'r ysgol neu feicio gyda ffrind am hwyl.

**Bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ adolygu'r cwestiynau lleoliad i sicrhau bod y gwahaniaeth rhwng y gwahanol leoliadau'n glir.

### D. Manylion 'Galw Cudd'

Teimlai un CRhC partner y byddai mwy o fanylder am alw cudd yn ddefnyddiol e.e. pa fersiwn o'r gamp oedd pobl ifanc eisiau cymryd rhan ynddo. Er bod Chwaraeon Cymru yn cydnabod y gwerth o gael gwybodaeth bellach yn y cyswllt hwn, byddai gwneud hynny drwy'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn golygu gofyn cwestiynau pellach am bob camp mae'r ymatebydd yn nodi galw amdani. Byddai hyn yn cynyddu hyd yr arolwg yn sylweddol.

**Safbwynt Chwaraeon Cymru:**

- × Byddem yn annog partneriaid i gynnal eu hymchwil eu hunain yn y cyswllt hwn ac efallai y bydd Chwaraeon Cymru yn gallu rhoi cyngor ar hyn.
- ✓ Byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o gynnwys y pwnc hwn mewn ymchwil ansoddol / ymchwil pellach gydag ysgolion.

### E. Llwybrau at Gyfranogiad

Tynnodd un CRhC partner sylw at y ffaith y byddai dealltwriaeth o wahanol lwybrau at chwaraeon a pha rai oedd fwyaf / leiaf tebygol o arwain at gyfranogiad tymor hir yn werthfawr.

**Safbwynt Chwaraeon Cymru:**

- × Er ein bod yn cydnabod gwerth edrych ar lwybrau cyfranogiad pellach, nid oes cwmpas yn yr arolwg presennol i edrych ar hyn yn fanylach.
- ⇔ Byddem yn annog y rhai sydd â diddordeb mewn ymchwilio'n ddyfnach i gynnal eu hymchwil eu hunain ac efallai y bydd Chwaraeon Cymru yn gallu helpu gyda hyn.
- ✓ Hefyd bydd Chwaraeon Cymru yn edrych ar gynnal ymchwil ansoddol gyda ysgolion yn y dyfodol rhagweladwy ac efallai y bydd posib i ni gynnwys y pwnc hwn fel rhan o hyn.

### F. Canlyniadau Cymdeithasol Ehangach

Tynnodd un partner sylw at y ffaith nad oes unrhyw gwestiynau ar hyn o bryd am ganlyniadau cymdeithasol ehangach (er enghraifft, cwestiynau iechyd a lles fel y rhai a gynhwysir yn arolwg Sport England).

**Safbwynt Chwaraeon Cymru:**

- × O ystyried pwysigrwydd cadw'r holiadur mor fyr â phosib, nid ydym yn credu bod y cwestiynau hyn yn flaenoriaeth ar hyn o bryd. Gofynnwyd cwestiynau am iechyd / lles yn flaenorol yn 2015 felly mae gennym ddata ar gyfer hyn, yn ogystal â thystiolaeth ehangach o'r cysylltiadau rhwng gweithgarwch corfforol ac iechyd o ffynonellau eraill.





### G. 'Y Naw Amod' / 'Ymwybyddiaeth'

Tynnodd un awdurdod lleol partner sylw at y ffaith nad yw pob un o'r 'Naw Amod' yn cael sylw yn yr arolwg ac y byddai'r data hyn yn ddefnyddiol iddynt. Soniwyd hefyd y gallai trefnu'r arolwg a / neu'r allbynnau o amgylch y rhain fod o gymorth. Mae holiadur 2018 yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r naw amod (er enghraifft, hyder, profiad, cymhelliant ac ati ar lefel 'pob camp') ond rydym yn cydnabod nad oes unrhyw amheuaeth ar hyn o bryd ynghylch 'ymwybyddiaeth o gyfleoedd'.

**Safbwynt Chwaraeon Cymru:**

- × Er ein bod wedi ystyried y posibilrwydd o ddatblygu cwestiwn ymwybyddiaeth sy'n benodol i chwaraeon, mae hyn yn debygol o ychwanegu cryn dipyn o hyd at yr arolwg ac ni allwn ymrwymo i gyflwyno hyn yn yr arolwg y tro nesaf.
- ✓ Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau bod y cwestiwn 'Byddwn yn gwneud mwy o chwaraeon pe...' yn rhoi sylw i bob un o'r naw amod.
- ✓ Byddwn hefyd yn edrych ar y ffordd fwyaf defnyddiwr gyfeillgar o drefnu'r arolwg a'r allbynnau.

### H. Cadw / Rhoi'r Gorau i Chwaraeon

Mynegodd un CRhC y byddai sicrhau gwell dealltwriaeth o roi'r gorau iddi o flwyddyn i flwyddyn yn ddefnyddiol.

**Safbwynt Chwaraeon Cymru:**

- ✓ Mae cwestiynau cyfredol yr arolwg yn ein galluogi i edrych ar gyfraddau cyfranogiad ar draws blynyddoedd ysgol / grwpiau oedran, gan nodi unrhyw adegau allweddol pryd mae disgyblion yn rhoi'r gorau i gymryd rhan.
- × Byddai cyflwyno cwestiwn sy'n gofyn i ddisgyblion gofio pa chwaraeon a wnaethant yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol ond nad ydynt yn cymryd rhan ynddynt mwyach yn anodd oherwydd byddai'n rhaid a) dibynnu ar gof manwl gywir y disgyblion dros gyfnod hirach o amser b) mae'n bosib y byddai angen defnyddio awgrymiadau, a fyddai'n ychwanegu cryn dipyn o hyd at yr arolwg.
- ⇔ Byddem yn annog partneriaid i gynnal eu hymchwil eu hunain yn y cyswllt hwn ac efallai y bydd Chwaraeon Cymru yn gallu rhoi cyngor ar hyn.
- ✓ Byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o gynnwys y pwnc hwn mewn ymchwil ansoddol / ymchwil pellach gydag ysgolion.

### I. Teithio Llesol

Tynnwyd hwn o arolwg 2018, fodd bynnag, mynegodd un ALl partner yr hoffai ei weld yn cael ei gynnwys eto oherwydd y cynnydd mewn cerdded a beicio, a phatrymau gweithio hyblyg, oherwydd COVID-19.

**Safbwynt Chwaraeon Cymru:**

- ✗ Mae adborth y partneriaid wedi pwysleisio pwysigrwydd cadw'r Arolwg Chwaraeon Ysgol mor fyr â phosib. Gan nad yw teithio llesol yn rhan o gylch gwaith Chwaraeon Cymru, ni fydd yn cael ei gynnwys yng nghylch nesaf yr arolwg.

Codwyd sawl pwnc arall yn ymwneud â chynnwys yr arolwg drwy gydol y broses ymgynghori.

### J. Mwynhad

Roedd Chwaraeon Cymru yn edrych ar y posibilrwydd o gwestiwn dilynol am fwynhad er mwyn deall pam oedd disgyblion yn dweud nad ydynt yn mwynhau chwaraeon allgyrsiol.

**Safbwynt Chwaraeon Cymru:**

- ✗ O ystyried bod y cwestiwn hwn yn debygol o ychwanegu hyd sylweddol at yr arolwg ac na fyddai'n briodol i ddisgyblion iau, ni fydd Chwaraeon Cymru yn ei gynnwys yng nghylch nesaf yr arolwg.
- ✓ Yn hytrach bydd Chwaraeon Cymru yn edrych ar y posibilrwydd o gynnwys y cwestiwn hwn mewn unrhyw ymchwil ansoddol a gynhelir gydag ysgolion (er enghraifft, Voxpopme).

### K. Para Chwaraeon

Mae adborth gan bartneriaid yn awgrymu bod llawer o ddisgyblion yn ei chael yn anodd ateb adran para chwaraeon yr holiadur a bod hyn yn ychwanegu llawer o amser at yr amser mae'n ei gymryd i gwblhau'r arolwg. Nodwyd nifer o opsiynau amhosib hefyd, er enghraifft, 'marchogaeth yn sefyll i fyny'.

**Safbwynt Chwaraeon Cymru:**

- ✓ Bydd y cwestiynau para'n cael eu hadolygu mewn cydweithrediad â Chwaraeon Anabledd Cymru. Bydd unrhyw gwestiynau sy'n cynhyrchu data sydd naill ai ddim yn fanwl gywir neu nad ydynt yn cael eu defnyddio'n cael eu dileu.





### L. Cwestiwn ethnigrwydd

Mynegodd y partneriaid nifer o bwyntiau am y cwestiwn ethnigrwydd:

- Nid yw disgyblion, yn enwedig yn y cyfnod cynradd, yn ymwybodol o ethnigrwydd ac felly nid ydynt yn deall y cwestiwn hwn.
- Mae rhai disgyblion yn teimlo'r angen i roi atebion jôc.
- Mae rhai disgyblion iau'n ofni ticio 'gwell gen i beidio dweud'.
- A oes angen y cwestiwn hwn?

Mae'r cwestiwn hwn yn bwysig gan ei fod yn un o'r ychydig (os nad yr unig un) ffynonellau data meintiol sydd gennym ni am gyfranogiad gwahanol ethnigrwydd ar y lefel hon yng Nghymru. Mae hefyd yn rhan o fodel buddsoddi Chwaraeon Cymru.

**Yng ngoleuni'r uchod, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Symud y cwestiwn i ddechrau'r holiadur fel bod posib ei ateb gyda'i gilydd fel dosbarth.
- ✓ Symleiddio'r cwestiwn drwy ddileu'r elfen 'cenedligrwydd'.
- ✓ Datblygu deunyddiau cyfathrebu y gall athrawon eu rhannu gyda disgyblion yn esbonio pam mae'r arolwg yn bwysig (er enghraifft, fideo sy'n cyflwyno'r arolwg gan athletwr, neu ddogfen gyfarwyddyd i athrawon).
- ✓ Cynnwys opsiwn 'Gwell Gen i Beidio Dweud' ac opsiwn 'Ddim yn Gwybod'.
- ✓ Datblygu fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen' o'r arolwg.
- ✓ Adolygu'r cwestiwn ymhellach yng ngoleuni unrhyw argymhellion o'r gwaith 'Hil a Chwaraeon' sy'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd.

### M. Cwestiynau Fideo

Roedd Chwaraeon Cymru yn edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno cwestiwn fideo (h.y. cwestiwn lle gallai disgyblion ateb drwy recordio fideo byr).

**Safbwynt Chwaraeon Cymru:**

- ✗ Ar ôl edrych ar hyn, ni fydd yn ymarferol ar hyn o bryd cynnwys cwestiwn fideo mewn arolwg ar y raddfa hon. Bydd Chwaraeon Cymru yn edrych a oes modd gofyn cwestiwn fideo ar wahân i is-sampl o ysgolion.

### N. Rhestr o chwaraeon

Dywedodd y partneriaid wrthym nad yw is-ddisgyblaethau o chwaraeon yn cael eu cofnodi; nad yw rhai gweithgareddau sydd wedi dod yn boblogaidd wedi'u rhestru (e.e. rhwyf-fyrddio, fersiwn ar-lein o chwaraeon); a bod chwaraeon eraill, yn enwedig rhai llai (e.e. saethu targedau) wedi'u hepgor.

**Safbwynt Chwaraeon Cymru:**

- ⇔ O ystyried pwysigrwydd cadw'r arolwg mor fyr â phosib, ni fydd yn gallu darparu is-ddisgyblaethau ar gyfer chwaraeon. Byddai gwneud hynny'n cynyddu hyd yr holiadur yn sylweddol. Hefyd, byddai maint y sampl ar gyfer llawer o'r is-ddisgyblaethau hyn yn debygol o fod yn rhy fach i adrodd yn ôl arno ac, mewn llawer o achosion, efallai na fydd plant yn gwybod pa fersiwn o'r gamp maent wedi cymryd rhan ynddo.
- ✓ Bydd Chwaraeon Cymru yn adolygu'r rhestr o chwaraeon. Er enghraifft, o ystyried nad yw disgyblion yn debygol o dicio canŵio neu gaiacio os ydynt wedi 'rhwyf-fyrddio', gall hyn gyfiawnhau cael ei gynnwys naill ai ar wahân neu ochr yn ochr â 'chanŵio a chaiacio'.
- ✓ Chwaraeon Cymru i ddatblygu protocol clir ar gyfer cyflwyno chwaraeon newydd.
- ✓ Bydd Chwaraeon Cymru yn edrych ar ffyrdd o gofnodi 'fersiynau ar-lein' o chwaraeon yng nghylch nesaf yr arolwg.
- ✓ Bydd Chwaraeon Cymru yn darparu bocs testun agored ar gyfer chwaraeon 'eraill' fel bod gennym fanylion pellach am y categori hwn. Nid ydym yn debygol o ofyn cwestiynau dilynol (e.e. amledd, lleoliad) ar gyfer y categori 'arall'.

### O. Gwirfoddoli

Roedd Chwaraeon Cymru yn bwriadu dileu'r cwestiwn gwirfoddoli a gyflwynwyd yn 2018 gan nad oedd gennym dystiolaeth bod y data hyn yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, mae sawl partner wedi mynegi pa mor bwysig yw'r cwestiwn hwn gan ei fod yn cynnwys ymwneud ehangach â chwaraeon ac yn darparu gwybodaeth dda.

**Safbwynt Chwaraeon Cymru:**

- ✓ Yn seiliedig ar yr adborth hwn, ac o ystyried nad yw'r cwestiwn hwn yn cymryd amser hir i'r disgyblion ei ateb, bydd Chwaraeon Cymru yn cadw'r cwestiwn yn yr arolwg.



CHWARAEON CYMRU

### P. Amledd Chwaraeon

Tynnwyd y cwestiwn hwn o arolwg 2018 ond mae adborth yn awgrymu bod y data hyn yn cael eu defnyddio gan CRhC partner. Bydd hefyd yn ofynnol ar gyfer model buddsoddi Chwaraeon Cymru.

**Felly, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Ailgyflwyno'r cwestiwn amledd chwaraeon.
- ✓ Ymgymryd â rhagor o waith i sicrhau bod geiriad y cwestiwn hwn yn creu ymatebion mor fanwl gywir â phosib. [dychwelyd at rywbeth tebycach i fersiwn 2015 'tua pha mor aml ydych chi wedi 'gwneud'....
  Ers i chi fod ym mlwyddyn x']
- ✓ Adolygu a oes angen data amledd chwaraeon ar gyfer lleoliadau eraill (nid dim ond clybiau cymunedol).

### Q. Cyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg

Nododd yr ymgynghoriad yr angen am ddeall a all ymatebwyr gael mynediad at hyfforddiant / cyfarwyddyd yn y Gymraeg y tu allan i amgylchedd yr ysgol.

**Felly, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Gofyn i siaradwyr Cymraeg yn unig: 'Ydych chi'n derbyn hyfforddiant / cyfarwyddyd yn y Gymraeg y tu allan i'r ysgol mewn clwb?'



# HOLIADUR DARPARIAETH





# HOLIADUR DARPARIAETH

Yr holiadur darpariaeth yw'r elfen o'r Arolwg Chwaraeon Ysgol rydym yn gofyn i athrawon ei chwblhau, i ddeall pa chwaraeon a chyfleusterau sydd ar gael mewn ysgolion, sawl munud o chwaraeon mae plentyn yn eu cael mewn wythnos, ac i gael amrywiaeth o safbwyntiau am y ddarpariaeth addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol.

Dyma'r themâu a gododd o ymgynghoriad yr arolwg ar yr Holiadur Darpariaeth Chwaraeon Ysgol:

- cynnwys yr arolwg;
- y sampl a ddefnyddiwyd er mwyn cael y canlyniadau cenedlaethol; a
- dilysrwydd allbwn yr arolwg ar gyfer rhai cwestiynau penodol.

# CYNNWYS

Gellir grwpio'r adborth am gynnwys yr holiadur darpariaeth yn sawl is-bwnc a thrafodir y rhain isod:

### A. Cefnogaeth i athrawon

Roedd adborth y partneriaid yn nodi bod angen i gwestiynau'r arolwg edrych yn fanwl ar y gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgolion ac athrawon i ddarparu chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Mae holiadur 2018 eisoes yn cynnwys adran sy'n gofyn am y gefnogaeth sy'n ofynnol - yn yr adran "Eich barn chi am y ddarpariaeth addysg gorfforol a chwaraeon" yn yr arolwg. Yma gofynnir cwestiynau am hyfforddiant, adnoddau, offer a chyfleusterau yn yr ysgol honno. Efallai na wnaed digon i hyrwyddo canlyniadau'r cwestiwn hwn yn y gorffennol.

**Safbwynt Chwaraeon Cymru:**

- ⬄ Un newid i'r holiadur a fyddai'n helpu efallai gyda mynd i'r afael ag unrhyw faterion heb eu cynnwys yn yr arolwg presennol yw cynnwys cwestiwn penagored sy'n gofyn yr union gwestiwn hwn yn benodol.
- ✓ Byddai ychwanegu cwestiynau at yr arolwg yn cynyddu'r amser a gymerir i gwblhau'r arolwg. Er na thynnwyd sylw at hyd yr arolwg darpariaeth fel elfen broblemus, mae unrhyw amser a gymerir o ddiwrnod athro'n bwysig a rhaid ei ystyried. Hefyd byddai ychwanegu cynnwys newydd yn cynyddu'r amser sydd ei angen i brosesu'r wybodaeth ac, os yw'n sylweddol, gallai arwain at oedi gyda rhyddhau ystadegau swyddogol cenedlaethol. Efallai y bydd cyfyngiadau technegol hefyd i nifer y llythrennau y gellid eu defnyddio mewn cwestiynau penagored. Serch hynny, gallai'r amser cynyddol a dreulir ar y cwestiwn hwn helpu i ddatgelu themâu nad ydynt wedi'u hystyried eto efallai.

Yr argymhelliad terfynol oedd cynllunio cwestiwn arolwg penagored newydd.

**Felly, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Datblygu cwestiwn newydd yn seiliedig ar y canlynol:
  "Esboniwch unrhyw gefnogaeth ychwanegol y gallai fod ei hangen ar yr ysgol er mwyn gwella profiadau chwaraeon disgyblion".
  (Bydd hwn yn gwestiwn penagored ac mae'n debygol y bydd angen cyfarwyddyd i nodi bod yr ymatebion wedi'u cyfyngu i 10,000 o lythrennau a dangos nifer y llythrennau sydd wedi'u defnyddio wrth fynd ymlaen. Bydd yr athrawon yn cael eu cynghori i ofyn am farn pobl eraill o'r ysgol honno cyn ateb y cwestiwn.)





### B. Cynhwysiant yn y ddarpariaeth

Roedd adborth ychwanegol ar gynnwys yr arolwg yn cynnig cynnwys cwestiynau ychwanegol i helpu gyda deall i ba raddau mae'r ddarpariaeth chwaraeon ysgol yn gynhwysol. Mae'r cwestiwn 'A yw disgyblion ag anableddau'n cael eu cynnwys mewn gwersi addysg gorfforol?' eisoes yn cael ei ofyn yn yr arolwg darpariaeth, ond rydym yn cydnabod y gellid gwneud mwy i sicrhau ein bod yn datgelu i ba raddau mae chwaraeon ysgol yn gynhwysol.

**Felly, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Ymhelaethu ar y cwestiwn hwn gyda chwestiwn dilynol, fel 'Oes unrhyw ddarpariaeth amgen yn cael ei darparu ar gyfer disgyblion ag anableddau?'. Wedyn defnyddio awgrymiadau ychwanegol i dynnu sylw at a oedd hyn yn cynnwys staff, cyfleusterau, offer penodol ac ati a ofynnir i'r rhai nad ydynt yn cynnwys disgyblion ag anableddau mewn gwersi addysg gorfforol.
- ⬄ O ystyried mai dim ond anabledd yw ffocws y cwestiynau presennol, rydym yn awgrymu bod y cwestiwn presennol hwn yn cael ei ddiwygio a'i ehangu, gan ddechrau gyda chwestiwn llawer ehangach, a gwneud hyn gan ddefnyddio canllawiau ac arbenigedd Chwaraeon Anabledd Cymru.

### C. Yr amser a neilltuir i wersi addysg gorfforol

Gwnaed awgrym arall i ymchwilio ymhellach i nifer y gwersi addysg gorfforol a ganslwyd a chyfran yr amser a gymerwyd o'r amser presennol sydd ar gael i gyflwyno'r gwersi hyn.

Mae dau opsiwn ar gael. Yr opsiwn cyntaf yw gofyn yn benodol pa mor aml y caiff gwersi addysg gorfforol eu canslo gydag ymatebion sefydlog ar raddfa amledd. Gellid gofyn cwestiwn cysylltiedig hefyd, pa mor aml y defnyddir amser mewn gwersi addysg gorfforol at ddibenion ar wahân i gyflwyno addysg gorfforol, eto gan ddefnyddio'r un ymatebion sefydlog.

Yr ail opsiwn yw bod yn fwy manwl gywir a gofyn am ganrannau neu niferoedd penodol y gwersi a ganslwyd, neu nifer yr oriau a ddefnyddir at ddibenion eraill.

**Felly, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Ychwanegu dau gwestiwn newydd at yr arolwg darpariaeth ynghylch pa mor aml y caiff gwersi addysg gorfforol eu canslo a pha mor aml y cânt eu defnyddio at ddibenion ar wahân i addysg gorfforol.
- ✓ O ystyried yr anawsterau posib wrth gasglu'r union ffigurau, penderfynwyd y gellid cael gwybodaeth yr un mor ddefnyddiol drwy ddefnyddio'r cwestiynau ehangach a nodir uchod, gyda'r ymatebion sefydlog 'Yn Aml / Weithiau / Pur Anaml / Byth' ac opsiwn ar gyfer 'Ddim yn Gwybod'. Er ein bod yn llai manwl gywir, gallem ddadlau y byddai'r canlyniadau'n gywirach.

## D. Cyfleusterau

Gofynnodd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad am y posibilrwydd o gynnwys cwestiwn a oedd yn edrych ar fynediad i gyfleusterau ac at offer yn ôl blwyddyn ysgol. Mae'r cais yn ymwneud â chwestiwn presennol yn arolwg 2018 sy'n gofyn am farn ar y datganiad canlynol, "Mae gan yr ysgol fynediad at gyfleusterau digonol i ddarparu chwaraeon".

Gofynnir i'r athro farcio ar raddfa faint mae'n cytuno â'r datganiad. Gofynnir y cwestiwn hwn ar lefel ysgol ac nid yw'n cael ei rannu yn ôl grŵp blwyddyn. Y rheswm am hyn yw y gall ysgol fod yn rhannu cyfleusterau ac offer a gall dilysrwydd a dehongli data fesul grŵp blwyddyn fod yn broblem os edrychir ar hyn yn fanylach.

**Safbwynt Chwaraeon Cymru:**

- × Gellid gofyn cwestiwn tebyg i'r cwestiwn cyffredinol hwn ar gyfer pob grŵp blwyddyn yn yr ysgol, fodd bynnag, o ystyried bod yr arolwg yn cynyddu o ran hyd er mwyn ymateb i awgrymiadau eraill, ac na fydd hyn yn cynnig llawer o wybodaeth newydd y tu hwnt i'r cwestiwn presennol, penderfynwyd cadw'r cwestiwn fel cafodd ei ofyn yn 2018. Gallai hwn fod yn bwnc y gellid rhoi sylw iddo fel rhan o brosiect yn y dyfodol a fyddai'n ymgorffori technegau ansoddol.

Crybwyllwyd cyfleusterau ysgolion eto fel rhan o'n harolwg ar-lein a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad. Gwnaethom gynnig diwygio'r cwestiwn a ofynnwyd am ddefnydd y cyhoedd o gyfleusterau yn yr ysgolion. Roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan ar y newid arfaethedig, er enghraifft, "Byddai'r cwestiwn hwn yn ddefnyddiol, yn enwedig o bersbectif CRhC, nid ydym bob amser yn ymwybodol o ba gyfleusterau sydd gan bob ysgol na sut gallwn gyfeirio clybiau at gynnal gweithgarwch wedi'i addasu".

Holodd un ymatebydd a fyddai'r athro oedd yn ymateb yn gwybod y math yma o wybodaeth. Byddai unrhyw ddiffyg gwybodaeth yn cael ei oresgyn drwy annog athrawon i drafod yr ymatebion gydag eraill yn yr ysgol (gan gynnwys y pennaeth), a fyddai'n gallu cael gafael ar yr wybodaeth hon. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylid ymchwilio ymhellach i'r holiadur yng nghyswllt pynciau fel argaeledd archebion, amserlenni manwl, cyflwr y cyfleusterau, ac a oedd y costau'n ffactor ataliol.





**Safbwynt Chwaraeon Cymru:**

- × O ystyried bod y cwestiwn hwn eisoes yn hir a bod sawl agwedd iddo, gan edrych ar yr ystod o gyfleusterau sydd ar gael, argaeledd i'r cyhoedd, argaeledd nodweddiadol drwy gydol yr wythnos, a chytundebau mynediad, rydym yn credu nad oes angen unrhyw gwestiynau atodol pellach fel rhan o'r arolwg darpariaeth, ond y gellid eu dilyn yn hytrach gydag ymchwil ansoddol ar ôl i'r cwestiynau newydd gael eu harchwilio.

Roedd llawer o awgrymiadau newydd yn ymwneud â phynciau sy'n newid yn rhy gyflym i ddarparu manylion mewn modd amserol fel rhan o'r arolwg hwn ac mae rhai o'r pynciau'n oddrychol (e.e. barn am ansawdd cyfleusterau chwaraeon) felly byddai'n well eu harchwilio gan ddefnyddio methodoleg amgen. Yn ogystal, gofynnir cwestiynau mwy cyffredinol am argaeledd ac ansawdd hefyd (er enghraifft, lefel y cytundeb â'r datganiad canlynol "Mae cyfleusterau chwaraeon yr ysgol o ansawdd uchel").

Gan fod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn ystod pandemig byd-eang a bod cadw pellter cymdeithasol wedi dod yn norm, efallai nad oedd yn syndod bod awgrym i gynnwys cwestiynau am ddarparu chwaraeon ar-lein yn yr ysgol. Mae'n ymddangos bod y math hwn o gwestiwn yn ychwanegiad defnyddiol at yr arolwg o ystyried yr angen cynyddol am chwilio am ddulliau darparu amgen i gadw at ganllawiau neu gyfyngiadau lleol a cenedlaethol yn ddiweddar.

Gan fod elfen o ansicrwydd ynghylch beth fydd y cyfyngiadau yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22, a pha fecanweithiau fydd wedi bod yn ddefnyddiol yn ystod 2020-21, penderfynwyd cynllunio cwestiwn newydd a oedd yn edrych ar y dull darparu amgen hwn. Gellir dileu'r cwestiwn yn hawdd os na chredir ei fod yn angenrheidiol mwyach yn nes at lansio'r arolwg.

**Felly, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Datblygu cwestiwn newydd yn seiliedig ar y drafft canlynol, "Pa mor aml mae eich ysgol yn darparu chwaraeon o bell / yn rhithwir gan ddefnyddio dulliau ar-lein? Opsiynau ymateb, 'Yn Aml / Weithiau / Pur Anaml / Byth'".

### E. Sampl Athrawon Darpariaeth

Yr uned sampl ar gyfer yr arolwg darpariaeth yw'r ysgol. Mae un athro o bob ysgol yn cwblhau'r holiadur darpariaeth ar ran yr ysgol honno. Roedd sawl elfen o'r adborth yn ymwneud ag a ddylai'r arolwg gael ei gwblhau gan fwy nag un athro ym mhob ysgol.

Yn dechnegol, mae hyn yn bosib ond mae sawl ffactor sy'n awgrymu nad dyma'r dull gorau o weithredu o angenrheidrwydd. I ddechrau, mae'r holiadur presennol yn cynnwys llawer o gwestiynau sy'n ddatganiadau ffeithiol am yr ysgol.

Byddai gofyn y cwestiynau hyn i nifer o bobl yn dyblygu ymdrech heb ychwanegu fawr ddim at y canfyddiadau. Byddai angen crynhoi'r canlyniadau terfynol o hyd ar gyfer pob ysgol, gan mai'r ysgol yw'r uned darged o fewn y ffrâm samplu, a byddai unrhyw newid yn gofyn am ailwampio methodoleg gyfan yr arolwg.

Yn ail, mae'n gofyn am amser gweinyddol ychwanegol gan athrawon yn yr ysgol a gallai hyn roi gormod o faich ar ysgolion sydd â nifer bach o athrawon o gymharu â'r rhai â llawer mwy.

Yn hytrach, rydym yn credu ei bod yn well datgan yn glir yn y canllawiau sy'n cyd-fynd â'r holiadur darpariaeth (ac yn yr holiadur ei hun o bosib) y dylid gofyn am farn staff ar draws yr ysgol (gan gynnwys y pennaeth) wrth ymateb i gwestiynau am farn ac agweddau at chwaraeon yn yr ysgol honno.

Byddai cael trafodaeth yn llawer cynt na phob athro'n cwblhau'r arolwg ar ei ben ei hun. Gallai'r dull cydweithredol hwn o weithredu helpu i symbylu trafodaeth bellach am chwaraeon yn yr ysgol, sy'n cael ei ystyried fel rhywbeth cadarnhaol, gan helpu i osgoi dyblygu ymdrech a lleihau'r adnoddau staff sydd eu hangen i gwblhau'r holiadur.

**Felly, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- × Peidio â chymryd unrhyw gamau i newid yr unedau targed (h.y. ysgolion) a ddefnyddir o fewn y ffrâm samplu ac, yn hytrach, bydd yn gwella'r cyfarwyddyd sy'n cyd-fynd â'r arolwg, gan wneud yr awgrym hwn o ddull cydweithredol o weithredu'n fwy penodol.
- ⇔ Byddwn hefyd yn edrych ar sut gellid gwella ein strategaeth gyfathrebu e.e. gallai Hwb Athrawon gynnig mecanwaith i rannu gwell cyfarwyddyd i annog ymatebion ar y cyd gan staff ar draws pob cyfnod allweddol a rôl ym mhob ysgol. Drwy rannu arfer gorau, byddem yn gobeithio creu arfer da ar draws pob ysgol wrth ateb yr arolwg darpariaeth.





Un sylw rhyng-gysylltiedig a wnaed oedd y gallai safbwyntiau uwch arweinwyr mewn ysgolion fod yn cael eu colli ar hyn o bryd drwy ddefnyddio'r strategaeth samplu bresennol.

Mae hyn yn rhywbeth fydd yn cael sylw drwy ddatgan yn glir bod angen ymatebion ar y cyd gan ysgolion fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adran hon. Fodd bynnag, opsiwn arall yw gofyn cwestiwn penodol am hyn. Fel hyn, mae'n debygol y bydd angen i bwy bynnag sy'n cwblhau'r holiadur siarad ag aelod o'r uwch dîm arwain yn yr ysgol honno er mwyn darparu ymateb (oni bai mai'r pennaeth sy'n ei gwblhau yn y lle cyntaf wrth gwrs).

Un o ganlyniadau posib ymgysylltu'n agosach ag aelodau'r uwch dîm arwain yn yr ysgol yw na fydd yr un lefel o fod yn agored yn cael ei darparu o bosib gan eraill yn yr ysgol ar gyfer cwestiynau sensitif sy'n ymwneud ag adnoddau / perfformiad yn yr arolwg darpariaeth (e.e. digonolrwydd hyfforddiant, cyfleusterau ac ati). Rydym yn gobeithio na fyddai hyn yn digwydd ond mae'n werth nodi'r 'effaith arsylwr' ar gwestiynau eraill.

**Felly, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Cynllunio cwestiwn newydd i'w gynnwys fel rhan o'r adran "Eich barn am y ddarpariaeth addysg gorfforol a chwaraeon yn ystod 2021-22".
  Gallai hwn gael ei ffurfio o ddatganiad yn gofyn i ba raddau mae'r cyfranogwr yn cytuno bod y pennaeth yn cydnabod pwysigrwydd llythrennedd corfforol a / neu'r ddarpariaeth chwaraeon.



**F. Dilysrwydd cwestiynau**

Roedd yr unig heriau i'r dilysrwydd yn gysylltiedig â'r cwestiwn am yr amser a neilltuir i addysg gorfforol ym mhob ysgol. Mae'r cwestiwn presennol yn gofyn i athrawon faint o amser cwricwlaidd yr wythnos a neilltuir ar gyfer addysgu addysg gorfforol yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol.

Mae manwl gywirdeb yr ymatebion i'r cwestiwn hwn eisoes wedi gwella drwy gynnig cyfarwyddyd clir i'r cyfranogwr bod angen i'r ateb fod mewn munudau. Cafwyd gwiriadau dilynol awtomatig hefyd a oedd yn dilysu bod yr ymateb mewn munudau a bod angen dilysu ymatebion afrealistig (h.y. pan oedd <10 munud neu >200 munud).

Mae'r newidiadau ychwanegol y gellid eu gwneud i wella'r cwestiwn yn cynnwys defnyddio cwestiynau dilynol pellach sy'n ystyried a yw rhywfaint o'r amser cwricwlaidd yr wythnos a neilltuir ar gyfer addysgu addysg gorfforol yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill (fel galluogi disgyblion i newid neu baratoi'r sesiwn: nid yn benodol ar gyfer cyflwyno'r addysgu), ac wedyn cwestiwn dilynol pellach yn edrych ar faint o amser cwricwlaidd yn fras a neilltuir ar gyfer addysgu addysg gorfforol yr wythnos a dreulir ar y gweithgareddau hyn, gan ofyn am amcangyfrif mewn canrannau.

Fel arall, un opsiwn fyddai gofyn cwestiwn sy'n nodi'r cyfarwyddyd a argymhellir (120 munud yr wythnos) ac wedyn gofyn pa mor aml mae'r ysgol yn glynu wrth y cyfarwyddyd hwn, gyda'r canlyniadau wedi'u rhannu yn ôl grŵp blwyddyn. Gall dileu'r cwestiwn presennol arwain at ganlyniadau annisgwyl os cânt eu defnyddio mewn mecanweithiau adrodd yn ôl mewn mannau eraill.

**Felly, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

✓ O ystyried pwysigrwydd y cwestiwn hwn mewn dadleuon parhaus, gwneir ymdrechion i wella'r cwestiwn ymhellach drwy ofyn cwestiynau atodol a thrwy weld a ellir gwella unrhyw un o'r gwiriadau dilynol presennol ymhellach. Yn ogystal, bydd y cyfarwyddyd i athrawon yn cael ei wella i sicrhau bod athrawon yn glir ynghylch sut dylent ateb y cwestiwn hwn.

Un awgrym terfynol oedd gweld beth fyddai canfyddiad pennaeth yr ysgol o gyfranogiad ar gyfer yr ysgol ac wedyn cynnal dadansoddiad i gymharu sut oedd y realiti a'r safbwyntiau hyn yn cyd-fynd.

Trafodwyd hyn, ac er y gallai awgrymu diffyg cysylltiad rhwng canfyddiadau'r tîm arwain a'r realiti yn yr ysgol honno (ymwybyddiaeth), roeddem yn credu y byddai ychydig yn annheg rhoi athro dan bwysau a disgwyl ymateb manwl gywir. Cwestiynwyd pa werth fyddai hyn yn ei gyfrannu at wneud newid cadarnhaol o gofio bod y cwestiynau presennol eisoes yn rhoi gwybodaeth am bynciau cysylltiedig.

**Felly, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

✓ Peidio â chynnwys hyn fel rhan o'r arolwg darpariaeth ond yn hytrach ei gynnwys fel pwnc ar gyfer ymchwil ansoddol yn y dyfodol.

[1]https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld12369/cr-ld12369-e.pdf

[2]https://mylocalschool.gov.wales/?lang=en





# ADRODD YN ÔL AC ALLBYNNAU

# ADRODD YN ÔL AC ALLBYNNAU

O ystyried graddfa'r Arolwg Chwaraeon Ysgol a dyfnder ei ganlyniadau, mae dosbarthu adroddiadau ac allbynnau'n amrywiol ac yn gymhleth. Wrth ymgynghori â phartneriaid a rhanddeiliaid drwy fyrddau crwn, daeth sawl thema yn ymwneud â gwella elfen adrodd yn ôl yr Arolwg Chwaraeon Ysgol i'r amlwg. Mae'r themâu hyn yn cynnwys y canlynol:

- ✓ effaith bosib y canlyniadau
- ✓ ymwybyddiaeth ac amseriad cyhoeddi canlyniadau
- ✓ math ac arddull yr wybodaeth a'r adroddiadau a gynhyrchir, ac
- ✓ yr adnoddau a'r cymorth ychwanegol sydd eu hangen

Mae'r adroddiad canlynol yn amlinellu'r adborth a gafwyd o dan bob un o'r themâu hyn, unrhyw broblemau cysylltiedig, atebion posib, ac ymrwymiadau i'n dull o weithredu wrth symud ymlaen.







# EFFAITH BOSIB Y CANLYNIADAU [AROLWG]

Yn yr ymarfer ymgynghori, esboniodd rhai rhanddeiliaid eu bod yn credu nad oedd canlyniadau ac adroddiadau'r arolwg yn ddigon cynhwysfawr, a bod partneriaid angen mwy – cyrff rheoli cenedlaethol yn benodol – er mwyn cynllunio a gweithredu'n briodol. Yn 2018, cynhyrchodd Chwaraeon Cymru amrywiaeth o adnoddau yn cynnwys yr wybodaeth a gafwyd o'r Arolwg Chwaraeon Ysgol, gan gynnwys tablau data helaeth ar lefel genedlaethol ac awdurdod lleol, adroddiad ar gyflwr y genedl, adroddiadau sy'n benodol i ysgolion, a sawl graffeg gwybodaeth.

Yn ogystal, paratowyd cyflwyniadau penodol i awdurdodau lleol a chwaraeon yn manylu ar wybodaeth berthnasol ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff rheoli cenedlaethol penodol ac fe'u trafodwyd wyneb yn wyneb ar gais. Ym mhob achos, ein nod oedd darparu cymaint o wybodaeth â phosib fel roedd niferoedd y sampl yn caniatáu.

Er ein bod yn bwriadu ailgynhyrchu cyflwyniad penodol i awdurdodau lleol a chwaraeon ac ailymgysylltu â chyrff rheoli cenedlaethol i helpu i ddehongli'r canlyniadau, rydym yn sylweddoli y gallwn wneud mwy.

**Felly, yn seiliedig ar yr adborth uchod, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ gweithio'n agos gyda chyrff rheoli cenedlaethol ac awdurdodau lleol cyn rhyddhau'r cyflwyniadau, i ddeall y cynnwys sydd o'r defnydd mwyaf.
- ✓ cynhyrchu cyflwyniadau penodol i endidau rhanbarthol yn yr un modd â chyflwyniadau'r cyrff rheoli cenedlaethol a'r awdurdodau lleol a grybwyllwyd uchod.
- ✓ cyfathrebu argaeledd yr adnodd hwnnw i bawb yn well, a gweithio lle bo angen i helpu cyrff rheoli cenedlaethol, awdurdodau lleol ac endidau rhanbarthol i ddeall beth mae'r wybodaeth yn ei olygu iddynt hwy.
- ⇔ ystyried y posibilrwydd o gyflwyno sesiynau hyfforddi ac adnoddau am y ffordd orau o ddefnyddio'r data sydd ar gael, a sut i ddehongli a defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio'n effeithiol.

Gofynnwyd cwestiynau hefyd yn yr ymgynghoriad ynghylch faint o bwys a briodolir i ganlyniadau'r Arolwg Chwaraeon Ysgol, a sut cânt eu defnyddio i gefnogi penderfyniadau cyllido. Mae Chwaraeon Cymru wedi ceisio defnyddio ac ymgorffori'r wybodaeth a gafwyd o'n harolygon os yw hynny'n bosib, fodd bynnag, o ystyried model buddsoddi newydd Chwaraeon Cymru, mae hynny'n fwy gwir nag erioed.

Bydd data'r Arolwg Chwaraeon Ysgol, ac yn arbennig y data am amledd y cymryd rhan a'r galw cudd fesul camp ac ar draws nodweddion gwarchodedig, yn elfen bwysig o'r model newydd. Felly, mae'r wybodaeth a gesglir yn eithriadol bwysig i ni fel sefydliad ac mae'n dylanwadu ar y penderfyniadau rydym yn eu gwneud a'r sgyrsiau rydym yn eu cael.

**Felly, yn seiliedig ar yr adborth uchod, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

✓ cyhoeddi, ochr yn ochr â'r adnoddau arfaethedig presennol, dablau data sy'n cyflwyno gwybodaeth sy'n gysylltiedig yn unig â model buddsoddi newydd Chwaraeon Cymru.







# YMWYBYDDIAETH AC AMSERIAD CYHOEDDI'R CANLYNIADAU

Drwy gydol y broses ymgynghori, mae'r adborth wedi bod yn glir ynghylch bod yr oedi cyn i ysgolion dderbyn canlyniadau ac adroddiadau yn peri pryder mawr. Yn benodol, rydym wedi clywed gan y rhai rydym wedi siarad â hwy bod oedi cyn derbyn adroddiadau sy'n benodol i ysgolion yn arwain at golli cyfleoedd, yn enwedig o ran gallu cynllunio ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod.

**Fel ymateb i'r adborth hwn, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

✓ Gwneud cynnydd pellach o ran cynllunio a gweithredu gweithdrefnau i gyflwyno adroddiadau ar unwaith i ysgolion sy'n cwblhau'r Arolwg Chwaraeon Ysgol. Y bwriad yw i'r adroddiadau hyn gael eu cynhyrchu a'u dosbarthu i ysgolion cymwys yn syth ar ôl cau'r arolwg. Er nad yw'n glir a fydd canlyniadau cenedlaethol ar gael yn yr adroddiadau ar unwaith – oherwydd cymhlethdodau wrth bwysoli'r data i fod yn gynrychioliadol yn genedlaethol – bydd gwybodaeth ar lefel ysgol ar gael i alluogi ysgolion i gynllunio cyn gynted â phosib.

✓ Edrych ar y cyfrwng gorau i arddangos y canlyniadau hyn, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio dangosfwrdd ar-lein hawdd ei ddefnyddio. Bydd pob adroddiad ar unwaith yn darparu cafeatau clir ynglŷn â'r ffordd orau o ddehongli'r data.

✓ Cynhyrchu a dosbarthu templedi cynlluniau gweithredu wrth agor yr Arolwg Chwaraeon Ysgol y tro nesaf, gan gynorthwyo ysgolion i baratoi a chynllunio.

Mynegodd y rhanddeiliaid bryderon hefyd ynglŷn ag ymwybyddiaeth ac amseriad cyhoeddi'r canlyniadau. At hynny, mynegodd ymgynghoreion nad oedd rhyddhau canlyniadau ar yr un pryd ar draws cyrff rheoli cenedlaethol, awdurdodau lleol, ysgolion a'r cyhoedd yn caniatáu llawer o gyfle i ddehongli a chynllunio ar lefel uwch cyn gorfod ateb ymholiadau am y data.

**Yn seiliedig ar yr adborth hwn, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Rhoi gwybodaeth well i bartneriaid wrth symud ymlaen o ran y dyddiadau a'r amseroedd cyhoeddi penodol.
- ✓ Cyfrif i lawr yn swyddogol at gyhoeddi canlyniadau ar gyfryngau amrywiol. Fel rhan o'r ymarfer hwn, byddwn yn ceisio ymgysylltu â fforwm cyfathrebu'r cyrff rheoli cenedlaethol er mwyn sicrhau'r ymwybyddiaeth fwyaf posib o'r prosesau cyhoeddi amrywiol.
- ✓ Cynnal ymarfer helaeth i adolygu manylion cyswllt partneriaid, gan sicrhau ein bod yn cyfathrebu'r rhyddhau arfaethedig ar ganlyniadau i'r unigolyn / unigolion mwyaf addas mewn sefydliadau perthnasol.

Er ein bod yn cydnabod manteision partneriaid yn cael yr olwg gyntaf ar yr wybodaeth, fel y soniwyd uchod, bu galw aruthrol drwy'r holiadur ar-lein, yr ymgynghoriadau bwrdd crwn, ac mewn adborth a dderbyniwyd yn flaenorol i ysgolion dderbyn adroddiadau 'ar unwaith' i'w helpu i gynllunio. Wedi dweud hynny, rydym yn obeithiol y bydd y strategaethau uchod i gynyddu ymwybyddiaeth partneriaid o ryddhau data yn helpu rhywfaint gyda'u paratoadau eu hunain.

Roedd yr adborth o'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys sylwadau am ddiffyg ymwybyddiaeth ymddangosiadol o glybiau cymunedol mewn perthynas â chanlyniadau'r Arolwg Chwaraeon Ysgol a'r adnoddau a'r offer amrywiol sydd ar gael. Er bod nifer o adnoddau wedi'u bwriadu ar gyfer cynulleidfaoedd penodol – er enghraifft, adroddiadau ysgol a chyflwyniadau sy'n benodol i chwaraeon – mae'n fwriad i dablau data, graffeg gwybodaeth, a'r adroddiad cyflwr y genedl fod o ddefnydd i bawb.

**Fodd bynnag, fel ymateb, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Ymrwymo i graffu ar ein cyfryngau cymdeithasol a'n sylw drwy wahanol gyfryngau fel atebion clwb a ffrydiau cyllido er mwyn cynyddu amlygrwydd y canlyniadau.
- ✓ Edrych ar y ffordd orau o becynnu a chyflwyno canlyniadau'r arolwg ar gyfer clybiau cymunedol.
- ✓ Cyflwyno gwybodaeth ar lefel chwaraeon leol, pan mae hynny'n bosib, gan ddibynnu ar niferoedd cyfranogiad yr arolwg.





Drwy well cyhoeddusrwydd ac ymgysylltiad o ran yr Arolwg Chwaraeon Ysgol drwy'r cyfryngau hyn, rydym yn gobeithio creu mwy o ymwybyddiaeth a defnydd ymarferol o'r canlyniadau ar lefel clybiau cymunedol. Hefyd bydd y strategaethau uchod yn cael eu cymhwyso i ymgysylltu â busnesau lleol, pwynt a godwyd hefyd fel rhan o'r ymgynghoriad.

Er y bydd y camau a gynlluniwyd uchod yn cyfrannu rhywfaint at liniaru pryderon partneriaid, rydym hefyd yn cydnabod y rôl mae'r partneriaid eu hunain – cyrff rheoli cenedlaethol ac awdurdodau lleol yn arbennig – yn ei chwarae wrth gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith clybiau cymunedol. Drwy ymgysylltu â phartneriaid drwy'r fframwaith atebolrwydd, byddwn yn ceisio deall y gwaith y mae cyrff rheoli cenedlaethol ac awdurdodau lleol wedi'i wneud i gynyddu'r defnydd o ganlyniadau'r arolwg chwaraeon ysgol ar lefel leol.

**Yng ngoleuni hyn, mae Chwaraeon Cymru:**

- ✓ Yn awyddus i sicrhau ein bod yn ymestyn y sgwrs, drwy ein rheolwyr perthnasoedd, i ddeall a yw clybiau cymunedol wedi defnyddio canlyniadau'r Arolwg Chwaraeon Ysgol a sut, a pha effaith mae hyn wedi'i chael ar y ddarpariaeth chwaraeon.



# MATH A STEIL YR WYBODAETH A'R ADRODDIADAU

Cododd yr ymgynghoriad nifer o bwyntiau adborth ynglŷn â sut arddangosir yr wybodaeth, gan gynnwys sylwadau ar y tablau data a ddarperir. Clywsom yn y lle cyntaf sut byddai'r gallu i ymchwilio'n fanylach i'r data'n ased, yn enwedig o ran model buddsoddi newydd Chwaraeon Cymru. Hefyd, clywsom sut yn benodol y byddai gallu archwilio ethnigrwydd fesul camp o werth mawr.

**Yn seiliedig ar yr adborth hwn, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ⇔ Edrych ar ymarferoldeb arddangos canlyniadau drwy ddangosfwrdd hygyrch a hawdd ei ddefnyddio ar wefan Chwaraeon Cymru. Er mai'r uchelgais yw darparu dangosfwrdd fel yr ateb o ran caniatáu i ddefnyddwyr ymchwilio i wybodaeth o ddiddordeb, gan gynnwys ar gyfer model buddsoddi newydd Chwaraeon Cymru, rydym wrthi'n gweithio i ddeall a fydd swyddogaeth y dangosfwrdd ar wefan Chwaraeon Cymru yn caniatáu archwilio'r data sy'n ofynnol.
- ✓ Darparu dadansoddiad mor fanwl â phosib – drwy ba bynnag gyfrwng – gan gynnwys y gallu i archwilio ethnigrwydd fesul camp. Byddwn yn ceisio darparu ac arddangos yr wybodaeth hon yn ôl yr angen, gan ddibynnu ar niferoedd cyfranogiad yr arolwg, yn enwedig gan ei fod yn ymwneud â model buddsoddi newydd Chwaraeon Cymru.

Gwnaed llawer o sylwadau hefyd, yn enwedig drwy'r holiadur ar-lein, am argaeledd a lleoliad data angenrheidiol. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos gwybodaeth nad oedd y cael ei chyfathrebu'n eang.

**Yn seiliedig ar yr adborth hwn, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Edrych eto ar dablau data'r Arolwg Chwaraeon Ysgol a'u gwella drwy gynnwys dolenni hawdd eu defnyddio ar y dudalen gynnwys i gyfeirio defnyddwyr at yr wybodaeth ofynnol, adolygu a dileu unrhyw dudalennau 'diangen' yn y tablau data ac, yn olaf, cynnwys sesiynau hyfforddi a thiwtorials ar alw ar sut i ddefnyddio'r tablau.





Cafodd pob un o'r strategaethau arfaethedig hyn gefnogaeth sylweddol yn holiadur yr ymgynghoriad.

Cawsom hefyd amryw o bwyntiau adborth yn ymwneud ag adroddiadau'r ysgolion, gan gynnwys y feirniadaeth nad yw adroddiadau ysgolion 2018 ond yn rhoi sylwadau ar y ffigur 'tair gwaith neu fwy yr wythnos' ac nid ar yr ystod o amleddau cymryd rhan, gan gelu gwir dirlun chwaraeon yr ysgol o bosib.

**Yn seiliedig ar yr adborth hwn, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Adrodd ar yr ystod o amleddau cymryd rhan mewn adroddiadau ysgol, yn ogystal â'r 'ffigur tair gwaith neu fwy yr wythnos'. Fodd bynnag, bydd cynnwys y dadansoddiad hwn ar gyfer pob maes diddordeb drwy gydol yr adroddiad yn ehangu ei hyd yn sylweddol, felly, dim ond y dadansoddiad o'r ystod o amleddau cymryd rhan ar lefel gyffredinol ydym yn bwriadu ei gynnwys.
- ⇔ Edrych ar y posibilrwydd o arddangos canlyniadau ysgolion drwy ddangosfwrdd ar-lein – yn ogystal ag adroddiad ysgol llawn – a fyddai'n caniatáu i ysgolion, yn ôl eu disgresiwn, edrych ar amledd y cymryd rhan fesul maes diddordeb ychwanegol.

Gwnaed sylwadau hefyd am steil yr adroddiadau ysgol a gynhyrchwyd yn 2018. Yn benodol, cawsom ein herio i ystyried, er bod yr adroddiadau ysgol yn darllen yn briodol ac yn ddeniadol i ddisgyblion a rhieni fel ei gilydd, bod risg i'r fformat presennol ddieithrio athrawon ac na fyddant yn cymryd yr adroddiadau o ddifrif o ganlyniad efallai.

**Yng ngoleuni'r adborth hwn, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- × Deall y pryder hwn, ac er y byddai'n ddelfrydol cynhyrchu sawl math o adroddiad i fodloni pob grŵp penodol, rydym yn credu mai creu adroddiad sy'n hygyrch ac yn ddealladwy i ddisgyblion ddylai fod yn flaenoriaeth. Hefyd, rydym yn credu y bydd sicrhau bod yr adroddiad yn briodol i ddisgyblion yn pwysleisio'r angen i athrawon, awdurdodau lleol a chyrff rheoli cenedlaethol ymgysylltu â disgyblion yn eu defnydd o ganlyniadau.
- ✓ Sicrhau bod ffurfiau manylach a mwy soffistigedig o arddangos y data ar gael o ffynonellau eraill fel tablau data ac ychwanegu'r dangosfwrdd ar-lein arfaethedig.

Her arall sydd wedi dod i'r amlwg yw a yw ysgolion yn defnyddio canlyniadau'r Arolwg Chwaraeon Ysgol ac a ydynt yn sail ddigonol i gynllunio. Awgrymodd yr adborth a ddarparwyd bod yr adroddiad Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion yn rhoi mwy o wybodaeth ac wedyn yn cael ei ddefnyddio'n amlach mewn cynlluniau datblygu ysgol.

**Yn seiliedig ar yr adborth hwn, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Edrych eto ar strwythur yr adroddiadau a ddarperir i ysgolion, gan ystyried sut gallant gyd-fynd yn well â Chwricwlwm Donaldson a'r strwythurau addysgol newydd.
- ⇔ Sicrhau bod y canlyniadau'n cyd-fynd â'r strwythurau hyn pan fo hynny'n briodol a bod yn ofalus rhag gorfodi canlyniadau i focsys artiffisial. Fodd bynnag, rydym yn asesu ymarferoldeb cynnwys tudalen 'cwricwlwm' yn yr adroddiad i arddangos canlyniadau sy'n arbennig o berthnasol i gynllun addysgol.
- ✓ Ymrwymo i addasu'r iaith a ddefnyddir yn yr adroddiadau i adlewyrchu'r un a ddefnyddir gan y byd addysg ac ysgolion, gan sicrhau bod gennym y derminoleg briodol.

Yn olaf, rydym wedi gwrando ar yr adborth sy'n ymwneud â chynhyrchu'r raffeg gwybodaeth ac roeddem yn falch o glywed am eu defnyddioldeb a'u hapêl at ystod eang o gynulleidfaoedd.

**Yn seiliedig ar yr adborth cadarnhaol sy'n awgrymu eu defnydd wrth gyflwyno i gynghorwyr, uwch reolwyr ac amrywiol gynghorau, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Ymrwymo i gynyddu eu cynhyrchu, gan gynnwys y posibilrwydd o raffeg gwybodaeth ar lefel etholaeth.

Er ein bod wedi derbyn adborth cadarnhaol am y raffeg gwybodaeth, mynegwyd pryderon am y ffigur '% y disgyblion a deimlai bod eu llais yn cael sylw', gan awgrymu y dylai adlewyrchu'r rhai a ddywedodd 'bob amser' ac 'weithiau'. Er ein bod yn deall y rhesymeg o gynnwys y rhai a ddywedodd 'weithiau' yn y ffigur, rydym yn credu y gallai ei gynnwys arwain hefyd at ystadegyn camarweiniol ac y byddai'n achosi problem o ran gallu tracio canlyniadau ar draws blynyddoedd yr arolwg.

**O ganlyniad, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Cynnwys ffigurau am 'bob amser', 'weithiau', a 'byth' yn y raffeg gwybodaeth, gan ganiatáu i'r darllenydd ddefnyddio unrhyw un neu gyfuniad o ffigurau fel mae'n gweld yn addas.
- ✓ Gweithredu mewn ffordd debyg o ran y ffigur 'Rydw i'n teimlo bod fy syniadau am chwaraeon ac addysg gorfforol yn cael sylw', yn unol â'r adborth a dderbyniwyd drwy holiadur yr ymgynghoriad.





# YR ADNODDAU A'R GEFNOGAETH YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL

Wrth fanylu ar y gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen o ran allbynnau, mynegodd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ddyhead am gefnogaeth ychwanegol i athrawon, yn enwedig i'r rheini mewn ysgolion sydd â galw cudd mawr am chwaraeon penodol.

**Yn seiliedig ar yr adborth hwn, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Datblygu adnoddau sy'n cysylltu ysgolion â chlybiau lleol, cyrff rheoli cenedlaethol ac awdurdodau lleol os yw hynny'n briodol.
- ✓ Cydnabod y rôl greiddiol mae cyrff rheoli cenedlaethol ac awdurdodau lleol yn ei chwarae ac, o'r herwydd, rydym yn ymrwymo i gynnwys y partneriaid hynny yn y misoedd cyn lansio'r arolwg i ddatblygu'r adnodd angenrheidiol.
- ✓ Gweithio gyda phartneriaid, sy'n chwarae rhan allweddol mewn adnabod meysydd penodol o alw cudd ac sy'n gallu cyfeirio partïon perthnasol at ddarpariaeth leol i ateb y galw hwnnw.
- ✓ Cynnwys argymhellion a chyfeirio priodol mewn adroddiadau ysgolion llawn ar ôl i'r arolwg gau.

Mynegodd y partneriaid hefyd yr angen am gefnogaeth bellach gan y tîm dirnadaeth yn Chwaraeon Cymru wrth ddehongli Data'r Arolwg Chwaraeon Ysgol. Yn 2018, darparwyd cymorth ar ffurf cyflwyniadau penodol i chwaraeon gan aelodau o dîm dirnadaeth Chwaraeon Cymru ar gais, yn ogystal â fersiwn sain o'r cyflwyniad yn cynnwys y canlyniadau cyffredinol, fel cefnogaeth ychwanegol.

**Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallwn wneud mwy ac, o ganlyniad, bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Cynnal ymarfer i sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chymaint â phosib o unigolion mewn gwahanol sefydliadau, gan sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r adnoddau sydd ar gael a chreu llinell gymorth yn ôl yr angen.
- ✓ Cynnwys cyrff rheoli cenedlaethol mewn trafodaeth wrth gynllunio a chynhyrchu cyflwyniadau sy'n benodol i chwaraeon er mwyn sicrhau bod y cynnwys gorau posib ar gael ac yn cael ei ddarparu.

# TABLAU DATA

Ystyrir canlyniadau'r Arolwg Chwaraeon Ysgol fel ystadegau swyddogol ac fe'u cyhoeddir fel tablau data ar wefan Chwaraeon Cymru gydag adroddiad disgrifiadol yn cyd-fynd. Mae'r adran hon yn trafod yr adborth penodol a dderbyniwyd am y tablau data cenedlaethol.

Cafwyd llawer o adborth canmoliaethus am y tablau data. Er enghraifft, roedd y tablau data a ddarparwyd yn glir, yn gynhwysfawr, yn cynnig lefel wych o ddata, yn hawdd eu deall, ac yn cael eu defnyddio i gynhyrchu adroddiadau ar gyfer staff ac uwch reolwyr. Er mwyn gwella'r tablau data, roedd dau brif awgrym: yn gyntaf, cynnwys mwy o fanylion h.y. mwy fyth o ddadgyfuno'r data; yn ail, cynhyrchu categorïau grwpio penodol gan ddefnyddio'r data presennol. Er gwaethaf natur ymddangosiadol anghyson y datganiadau hyn, gall y ddau ychwanegu gwerth. Rhoddir sylw i bob agwedd isod.

## A. Canlyniadau manylach

Ystyriwyd yr awgrym i gynhyrchu mwy fyth o fanylder gyda'r tablau data. O ystyried yr adborth gwrthgyferbyniol oedd yn awgrymu eu bod eisoes yn gynhwysfawr ac yn cynnig lefel 'wych' o fanylder, gallai ychwanegu unrhyw fanylion pellach greu risg o wneud y tablau'n llai clir a hawdd eu deall. Yn ogystal, mae'r tablau wedi cael eu cynllunio eisoes i roi sylw i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau am gymryd rhan a dosbarthiadau geo-ddemograffig posib.

Dim ond y prif ystadegau allweddol y mae angen i Dablau Data a ddefnyddir i gyflwyno Ystadegau Swyddogol eu cyflwyno a gellid dadlau eu bod eisoes yn mynd ymhell y tu hwnt i'r disgwyliad hwn. Serch hynny, os rhywbeth, rydym yn credu y gellid gwneud mwy i agor yr Arolwg Darpariaeth Chwaraeon Ysgol. Dewis arall yn lle ehangu cynnwys y tablau data fyddai cynhyrchu dangosfwrdd rhyngweithiol cysylltiedig a gyflwynir naill ai ar wefan Chwaraeon Cymru neu ddefnyddio meddalwedd sy'n bodoli eisoes fel Microsoft PowerBi.

**O ganlyniad i'r adborth hwn, bydd Chwaraeon Cymru yn ymrwymo i'r canlynol:**

- ✓ Adolygu cynnwys y tablau data er mwyn sicrhau bod unrhyw gwestiynau newydd yn cael eu cofnodi a'u cynnwys os yw hynny'n briodol.
- ✓ Byddwn hefyd yn edrych i weld a oes posib creu mwy o effeithlonrwydd, er mwyn creu lle i gynnwys unrhyw ddadansoddiadau pellach o'r data, lle mae maint y sampl yn caniatáu.
- ✓ Byddwn hefyd yn edrych ar opsiynau ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth mewn dangosfwrdd i alluogi defnyddwyr i ymchwilio i'r set ddata eu hunain heb orfod archwilio'r tablau data i ddod o hyd i'r data cyhoeddedig.





Yn ddelfrydol, byddwn yn anelu at sefydlu llif gwaith o'r set ddata wedi'i phwysoli'n grai ond bydd angen i ni sicrhau na ellir adnabod unrhyw unigolion o ganlyniad i'r broses hon. O'r herwydd, bydd yr agwedd olaf hon yn fwy o ymarfer archwilio parhaus yn hytrach na rhywbeth sydd ar gael ar unwaith ar gyfer rhyddhau canlyniadau cychwynnol yr Arolwg Chwaraeon Ysgol yn 2022.

## B. Mwy o grwpio ar y data

Yr ail gais oedd ychwanegu categori ethnigrwydd cyfunol ychwanegol i gofnodi Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (DLIE) fel mecanwaith adrodd yn ôl.

Gellid dadlau ei bod yn bwysicach edrych ar y manylion a gynigir ym mhob categori ethnig, serch hynny, mae data'n cael eu cyflwyno fel hyn yn aml. Gellid ychwanegu'r categori DLIE hwn at y categorïau ethnigrwydd presennol ac, os yw hynny'n bosib (yn seiliedig ar faint sampl), ei ddefnyddio i ddatgelu'r data yn y tablau presennol.

**Bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Ymrwymo i edrych a oes unrhyw gategorïau data eraill y gellid eu cyfuno e.e. daearyddiaeth.

Mae'r prosiect 'Trechu Hiliaeth ac Anghydraddoldeb Hiliol mewn Chwaraeon' yn debygol o gyflwyno sawl argymhelliad i Gynghorau Chwaraeon y DU yn gynnar yn 2021.

**Bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

- ✓ Defnyddio'r canfyddiadau hyn i helpu i lywio sut rydym yn cyflwyno gwybodaeth am ethnigrwydd gyda'n tablau data. Beth bynnag, fel ymarfer rhagarweiniol byddwn yn edrych ar draws y tablau data ac yn gweld ble gallwn ychwanegu'r wybodaeth hon o ystyried bod nifer is o ymatebwyr fel rheol ym mhob categori ethnigrwydd.

Roedd adborth pellach yn ymwneud â chyhoeddi tablau data yn cynnwys cael tudalen gynnwys wedi'i chyflwyno'n glir sy'n cysylltu'n uniongyrchol â phob tabl. Yn ddelfrydol, gellid cael mynediad i bob tabl yn uniongyrchol drwy URL. Nid yw'r tablau presennol yn cynnwys dolenni ac mae hyn yn ei gwneud yn anos na sydd angen llywio'r 46 is-dabl.

**Bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

✓ Anelu at gwblhau'r gwelliannau hyn yn y set nesaf o dablau. Yn ogystal, byddwn yn ymrwymo i adolygu'r cynnwys presennol a chyhoeddi cwestiynau newydd a mwy o wybodaeth o'r Arolwg Darpariaeth.

Fodd bynnag, mae angen sicrhau cydbwysedd gan fod 56% o'r ymatebwyr o'r farn y dylid cynhyrchu llai o dablau. Hefyd dangosodd canlyniadau ein hymgynghoriad ar-lein mai dim ond rhan o gyfres o adnoddau y byddai eu hangen i gynrychioli canlyniadau'r arolwg oedd tablau data. Roedd angen gwneud gwell defnydd o dablau ar ffurf graffeg gwybodaeth ryngweithiol a dangosfyrddau data. Awgrymwyd hefyd y gellid bod angen hyfforddiant i ddefnyddio'r tablau a'r arddangosfeydd data amgen.

**Bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:**

✓ Adolygu i weld a allai rhaglen CLIP Chwaraeon Cymru roi sylw i hyn yn benodol fel rhan o raglen hyfforddi barhaus y sector.








sportwales chwaraeoncymru

chwaraeon.cymru

/SportWales

@sport_wales

sport_wales